## Wrth iddynt ddefnyddio eu sgiliau

# Fi atat Ti ataf Fi

**Cerdyn gweithgareddau**



Dragon Multi-skills
Aml Sgiliau'r Ddraig

sportwales chwaraeoncymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

© Hawlfraint (Cyngor Chwaraeon Cymru) 2012. Cedwir pob hawl.

## Wrth iddynt ddefnyddio eu sgiliau

# Fi atat Ti ataf Fi

Cerdyn gweithgareddau

### Beth am chwarae?

- Trefnwch y plant yn ddau dîm o ddau
- Crëwch ardal chwarae sy'n cynnwys dau barth a gaiff eu rhannu gan rwyd isel neu fwlch/ardal 'waharddedig' (po fwyaf yw'r bwlch, yr uchaf fydd y rhwyd ddychmygol)
- Bydd angen i un tîm fod yn y parth ar un ochr i'r rhwyd neu'r bwlch, a bydd angen i'r tîm arall fod gyferbyn â nhw yn y parth arall
- Bydd angen i'r plant anfon y bêl dros y rhwyd gan geisio cynnal y rali gyhyd ag sy'n bosibl
- Bydd angen i'r plant benderfynu ar y rheolau, sut i anfon a derbyn y bêl, sawl gwaith y mae'r bêl yn cael bownsio, a allwch chi anfon y bêl at rywun yn yr un tîm â chi, pwy sy'n dechrau'r rali a sut, a allwch chi chwarae'r bêl o'r tu allan i'r parth ac ati
- Gofynnwch i'r ddau dîm ddechrau trwy gydweithio ac yna mynd ati i gystadlu yn erbyn ei gilydd

